***Statws*** *This is the original version (as it was originally enacted).*

ATODLEN 4

HYSBYSIAD AM GYFARFODYDD AWDURDODAU LLEOL, MYNEDIAD AT DDOGFENNAU A MYNYCHU CYFARFODYDD

## RHAN 2

MYNYCHU CYFARFODYDD AWDURDODAU LLEOL: DIWYGIADAU CANLYNIADOL

*Mynychu cyfarfodydd awdurdodau lleol: diwygiadau sy'n ganlyniadol ar adran 47*

23 (1) Yn Rhan 4 o Atodlen 12 i Ddeddf 1972 (cyfarfodydd cyngor cymuned), ym mharagraff 29 yn lle is-baragraff (1) rhodder—

"(1) The manner of voting at meetings of a community council is to be decided by the council, but (if a vote is necessary on the question) the proper officer is to determine the manner of voting on that decision; if agreement cannot be reached, the proper officer is to determine the manner of voting on all other matters."

(2) Ym Mesur 2011, hepgorer adran 4 (mynychu cyfarfodydd o bell).

(3) Yn Neddf 2013, hepgorer adran 59 (mynychu cyfarfodydd prif gynghorau o bell).

(4) Yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2007 (O.S. 2007/399), yn Atodlen 1 (swyddogaethau nad ydynt i fod yn gyfrifoldeb i weithrediaeth), yn y tabl yn Rhan Ff (swyddogaethau amrywiol), ar ôl paragraff 18 mewnosoder—

| | |
|---|---|
| "19 Y dyletswydd i wneud trefniadau ar gyfer cynnal cyfarfodydd prif gyngor neu ei weithrediaeth | Adran 47(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021" |